OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 701 (Cy.58)

# CŴN, CYMRU

RHEOLI CŴN

## Gorchymyn Rheolaethau ar Gŵ n (Heb Fod yn Gymwys i Dir Dynodedig) (Cymru) 2007

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - | - | *6 Mawrth 2007* |
| *Yn dod i rym* | - | - | *15 Mawrth 2007* |

O ran Cymru, y person priodol fel y'i diffinnir yn adran 66(b) o Ddeddf Cymunedau Glân a'r Amgylchedd 2005(**1**), at ddibenion arfer y pwerau a roddir gan adran 57(3) a (4) o'r Ddeddf honno, yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'n gwneud y Gorchymyn a ganlyn wrth arfer y pwerau hynny:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheolaethau ar Gŵn (Heb fod yn Gymwys i Dir Dynodedig) (Cymru) 2007.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Mawrth 2007.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Cymunedau Glân a'r Amgylchedd 2005;

ystyr "ffordd" ("*road*") yw unrhyw ddarn o briffordd y caiff y cyhoedd fynd arno, ac mae'n cynnwys pontydd y mae ffordd yn mynd drostynt;

ystyr "tir" ("*land*") yw unrhyw dir sydd yn agored i'r awyr ac y mae gan y cyhoedd hawl neu ganiatâd i fynd arno (gyda thâl neu heb dâl), ac mae unrhyw dir â tho drosto i'w drin fel tir "agored i'r awyr" os yw ar agor ar un ochr o leiaf.

(**1**) 2005 p. 16.

**Tir nad yw Pennod 1 o Ran 6 o'r Ddeddf yn gymwys iddo**

**3.** Dynodir unrhyw dir sy'n dod o fewn disgrifiad yng ngholofn gyntaf y tabl yn yr Atodlen yn dir nad yw Pennod 1 (rheolaethau ar gŵn) o Ran 6 (cŵn) o'r Ddeddf yn gymwys iddo, at y dibenion a bennir mewn perthynas â'r disgrifiad penodol yn ail golofn y tabl hwnnw.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

6 Mawrth 2007

(**2**) 1998 p. 38.

## ATODLEN

Erthygl 3

### TIR NAD YW PENNOD 1 O RAN 6 O'R DDEDDF YN GYMWYS IDDO

| *Disgrifiad o'r Tir* | *Dibenion nad yw Pennod 1 o Ran 6 o'r Ddeddf yn gymwys iddynt* |
|---|---|
| Tir a osodir at ddefnydd y Comisiynwyr Coedwigaeth o dan adran 39(1) o Ddeddf Coedwigaeth 1967(**3**) | At ddibenion gwneud gorchymyn rheoli o cŵn dan adran 55(1) o'r Ddeddf |
| Tir sy'n ffordd, neu'n rhan o ffordd | At ddibenion gwneud gorchymyn rheoli cŵn o dan adran 55(1) o'r Ddeddf sy'n darparu ar gyfer tramgwydd mewn perthynas â'r mater a ddisgrifir yn adran 55(3)(c) (gwahardd cwn dir) |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi disgrifiadau o dir nad yw Pennod 1 (rheolaethau ar gwn) o ran 6 (cwn) o Ddeddf Cyndogaethau Glan a'r Amgylchedd 2005 ("y Ddeddf") (erthygl 3) yn gymwys iddynt at y dibenion a bennir mewn perthynas a phob un o'r disgrifiadau.

Dynodir dau ddisgrifiad o dir yn y Gorchymyn hwn. Y disgrifiadau yw—

(i) tir a gaiff ei osod at ddefnydd y Comisiynwyr Coedwigaeth o dan adran 39(1) o Ddeddf Coedwigaeth 1967; a

(ii) tir sy'n ffordd, neu'n rhan o ffordd.

Mae effeithiau'r esemptiadau a wneir gan y Gorchymyn hwn fel a ganlyn:

(i) mewn perthynas â'r disgrifiad cyntaf o dir, rhwystro gorchymyn rheoli cŵn, sy'n darparu ar gyfer tramgwydd neu dramgwyddau mewn perthynas â rheoli cwn mewn cysylltiad â'r tir hwnnw, rhag cael ei wneud; a

(ii) mewn perthynas â'r ail ddisgrifiad o dir, rhwystro gorchymyn rheoli cŵn, sy'n darparu ar gyfer tramgwydd neu dramgwyddau mewn perthynas â gwahardd cŵn rhag mynd ar y tir hwnnw, rhag cael ei wneud.

(**3**) 1967 p. 10; diwygiwyd adran 39(1) gan O.S. 1999/1747, erthygl 3 ac Atodlen 12, Rhan II, paragraff 4(1) a (28).